

Llio a Llew y llygod



Tric  
a Chlic



Roedd Llio a Llew y llygod yn byw mewn twll bach yn yr ystafell wely ond doedd neb yn gwybod eu bod nhw yno.



Un noson, aeth y ddau allan o'r twll ac o amgylch y tŷ.



Gwelon nhw gi enfawr yn  
gorwedd ar y mat o flaen  
y tân a chath flewog yn  
gorwedd ar y gadair.



Gwelodd y ci y llygod.



Gwelodd y gath y llygod.

5



Rhedodd y ci a'r gath  
ar eu hôl.

6



Aethon nhw ar draws yr  
ystafell.



i fyny'r grisiau a ...



heibio'r ystafell ymolchi.

9



Rhedodd Llio a Llew y llygod,  
â'u gwynt yn eu dwrn, yn ôl i'r  
twll bach yn yr ystafell wely.

10

"Diolch byth! Dyma ni yn  
ôl yn y twll a dyma ble  
byddwn yn aros," meddai  
Llio Llygoden gan grynu.

